| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 5 Mehefin 2024 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Trwyddedu<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706433 |
| **TESTUN:** | Rhaglen Waith 2024/25 |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Rhoi gwybod i'r Aelodau am flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu, ynghyd â diweddariad ar y rhaglen waith y cytunwyd arni ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu am 2024/25.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu'n adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran ei swyddogaeth drwyddedu, a rheoleiddio, rheoli a gorfodi trwyddedeion yn effeithiol, yn ogystal ag ymrwymiad yr Awdurdod i greu cymunedau mwy diogel a datblygu'r economi.

2.2 Mae Rhaglen Waith arfaethedig ynghlwm, yn Atodiad 1, i'r Aelodau ei hystyried a'i chymeradwyo.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Wrth ddrafftio'r Rhaglen Waith, mae Swyddogion wedi ystyried y polisïau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trwyddedu a dyddiadau adolygu'r polisïau hynny ynghyd ag unrhyw newid deddfwriaethol posibl a gynigir gan Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog.

3.2 Oherwydd newidiadau sylweddol i strwythur staffio'r Adain Drwyddedu, a fydd yn cael effaith ar lwyth gwaith y staff, mae prosesau adolygu rhai o'r polisïau wedi'u haildrefnu yn y Rhaglen Waith.

3.3 Mae’r Rhaglen Waith ddiwygiedig yn Atodiad A ac yn cynnwys y materion uchod.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Argymhellir bod yr Aelodau’n nodi cynnwys yr adroddiad.

4.2 Argymhellir ymhellach bod yr Aelodau’n ystyried ac yn cymeradwyo’r Rhaglen Waith ddiwygiedig y manylir arni yn Atodiad A ar gyfer 2024/25.